# 2. Cwmpas y Polisi

Derbynnir fod y canlynol yn flaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn ei ymagwedd tuag at gam-drin plant:

- Gwarchod bywydau a lles plant. Byddwn yn sicrhau mai lles plant yw'r brif ystyriaeth wrth blismona cam-drin plant;
- Hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, deallwn y dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r deilliannau personol ar gyfer y plentyn a'r hyn sy'n bwysig iddo. Dylai hawliau'r plentyn fod yn ganolog i'r ymagwedd, a'u lles ddylai fod y brif ystyriaeth bob amser;
- Ymchwilio i bob adroddiad am gam-drin plant a diogelu hawliau dioddefwyr trosedd sy'n blant. Defnyddir gwasanaethau a swyddogion arbenigol er mwyn sicrhau'r ymchwiliadau mwyaf effeithiol;
- Ymgorfforir nodi, ymateb ac ymchwilio i gam-drin plant a diogelu plant fel gweithgarwch plismona prif ffrwd;
- Gweithredu'n effeithiol yn erbyn troseddwyr fel bod modd eu dal i gyfrif, drwy'r system cyfiawnder troseddol, wrth ddiogelu lles plant;
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu ymagwedd amlasiantaeth ragweithiol er mwyn atal a lleihau cam-drin plant drwy fabwysiadu lens profiadau niweidiol yn ystod plentyndod tuag at benderfynu a defnyddio ymyriadau cynnar.

Mae'r egwyddorion uchod yn fusnes i bawb a bydd Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi'r offer i'w staff adnabod ac ymateb yn gyflym ac effeithiol i amddiffyn y plant hynny sydd mewn perygl o niwed.

Bydd y polisi hwn ar gael i bob aelod staff ddilyn wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, a bydd swyddogion yn derbyn canllawiau gweithdrefn lleol penodol yn unol â'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Bydd pob aelod staff yn dilyn egwyddorion y polisi hwn wrth ymdrin â'r patrwm adrodd, ymateb ac ymchwilio i adroddiadau am gam-drin plant. Bydd canllawiau Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi manylion am gyfrifoldebau pob parti sy'n gysylltiedig ag ymddygiad a rheolaeth ymchwiliadau, o'r cyswllt cyntaf â gweithiwr Heddlu Dyfed-Powys hyd at ddiwedd yr ymchwiliad.

Bydd canllawiau ar gael ar gyfer pob aelod staff ar y safle mewnrwyd mewnol.

